# Adolygiad o swyddogaeth yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru

Adroddiad a baratowyd ar gyfer Llywodraeth Cymru

Cyhoeddwyd: Chwefror 2026

## Tabl Cynnwys

**1. Crynodeb Gweithredol....4**
**2. Casgliadau....8**
**3. Argymhellion....12**
**4. Cyfeiriadau....16**

## Rhestr o Fyrfoddau

| | |
|---|---|
| ABC | Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau |
| ALl | Awdurdod Lleol |
| ASB | Asiantaeth Safonau Bwyd |
| BTOM | Model Gweithredu Targed ar gyfer Ffiniau |
| CG | Cylch Gorchwyl |
| CLlLC | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| CNC | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| DAERA | Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig |
| Defra | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig |
| DHSC | Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| DLlC | Deddf Llywodraeth Cymru |
| DNA | Asid deocsiriboniwcleig |
| DPP | Datblygiad Proffesiynol Parhaus |
| DPPW | Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd (Cymru) |
| EHW | Iechyd yr Amgylchedd Cymru |
| FACau | Pwyllgorau Cynghori ar Fwyd |
| FCSL | Safonau a Labelu Cyfansoddiad Bwyd |
| FHRS | Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd |
| FSS | Safonau Bwyd yr Alban |
| FFSH | Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid |
| GIG | Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol |
| GMO | Organeb a Addaswyd yn Enetig |
| HPAG | Grŵp Cynghori ar Ddiogelu Iechyd |
| ICC | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| LAEMS | System Monitro Gwaith Gorfodi Awdurdodau Lleol |
| NFCU | Yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd |
| OCVO | Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol |
| PBO | Organeb wedi'i Bridio'n Fanwl |
| SMC | Safonau Masnach Cymru |
| SPS | Iechydol a Ffytoiechydol |
| SSAFW | Bwyd Dilys, Cynaliadwy a Diogel Cymru |
| UE | Yr Undeb Ewropeaidd |
| UKHSA | Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU |
| UN SDG | Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig |
| WFAC | Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru |
| WHO | Sefydliad Iechyd y Byd |

# 1. Crynodeb Gweithredol

## Cefndir a diben

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn adran anweinidogol annibynnol y Llywodraeth sy'n gweithredu ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, gyda'r prif nod o ddiogelu iechyd y cyhoedd rhag risgiau sy'n deillio o fwyta bwyd, ac i ddiogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. Ers sefydlu'r asiantaeth yn wreiddiol, mae newidiadau llywodraethol ac allanol wedi effeithio ar rôl a chylch gwaith yr ASB, gan gynnwys trosglwyddo polisi maeth a labelu maeth, sefydlu corff cyhoeddus Safonau Bwyd yr Alban, a'r ASB yn cymryd cyfrifoldeb am swyddogaethau ychwanegol yn dilyn ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd. Mewn cydnabyddiaeth o'r newidiadau hyn, comisiynwyd Prifysgol Metropolitan Caerdydd gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad annibynnol o swyddogaeth yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yng Nghymru. Archwiliodd yr adolygiad gylch gwaith polisi a threfniadau llywodraethu yr ASB, a'i rôl o fewn y system ddatganoledig. Y nod oedd asesu effeithiolrwydd systemau presennol a chynnig argymhellion wedi'u targedu ar gyfer gwella, yn hytrach na chynnig newidiadau ar raddfa fawr neu newid cyfeiriad cyffredinol a chylch gwaith gweithgarwch yr ASB.

## Dulliau

Mabwysiadodd yr adolygiad ddull ansoddol gan ddefnyddio cyfweliadau a grwpiau ffocws a oedd yn cynnwys 31 o gyfranogwyr rhanddeiliaid, gan gynnwys staff yr ASB, swyddogion Llywodraeth Cymru, a chynrychiolwyr awdurdodau lleol, a'r cyfan wedi'i lywio gan adolygiad pen desg o ddogfennaeth polisi a llywodraethu perthnasol. Darparodd yr astudiaeth pen desg y sylfaen gyd-destunol a dogfennol ar gyfer yr ymchwil, tra bod y cyfweliadau yn archwilio safbwyntiau rhanddeiliaid yn fwy manwl. Datblygwyd canfyddiadau trwy ddadansoddiad thematig o drawsgrifiadau cyfweliadau cyfranogwyr.

## Canfyddiadau

Mae'r ASB yn dangos ymrwymiad clir i iechyd y cyhoedd, a gwerthoedd cryf o dryloywder ac annibyniaeth. Roedd rhanddeiliaid yn canmol ymroddiad staff yr Asiantaeth, ansawdd ei chyngor, a'i gallu i gynnal safonau uchel mewn diogelwch a rheoleiddio bwyd. Mae'r sefydliad yn cael ei ystyried yn llais dibynadwy yng Nghymru, gyda chenhadaeth iechyd cyhoeddus glir ac ethos cydweithredol.

Mae strwythurau llywodraethu ffurfiol wedi'u sefydlu’n dda yn gyffredinol, ac mae'r ASB wedi datblygu mecanweithiau anffurfiol effeithiol i gydlynu gyda Llywodraeth Cymru o ddydd i ddydd. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd dal i fyny rheolaidd a pherthnasoedd rhyngbersonol cryf sy'n hwyluso’r gwaith o wneud penderfyniadau ymatebol. Fodd bynnag, mae concordat 2016 rhwng yr ASB a Llywodraeth Cymru bellach wedi dyddio ac mae angen ei adolygu i adlewyrchu'r realiti presennol a sicrhau eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau. Mae cylch gorchwyl y Grŵp Llywodraethu Bwyd Anifeiliaid wedi'i ddrafftio ond heb ei gwblhau a'i gytuno eto.

Mae ymadawiad y DU â'r UE wedi sbarduno newid strwythurol ar draws swyddogaethau polisi a chyflawni, gan ei gwneud yn ofynnol i'r ASB sefydlu ei mecanweithiau asesu risg ei hun, ehangu gallu gwyddonol ac ymgymryd â chyfrifoldebau rheoleiddiol newydd (e.e. ar gyfer awdurdodi cynhyrchion i’w rhoi ar y farchnad). Mae'r ASB wedi ymateb yn rhagweithiol trwy wella a symleiddio prosesau mewnol. Mae datganoli cyfrifoldebau rheoleiddio yn gyflym i Weinidogion Cymru wedi cyflwyno heriau, yn enwedig mewn meysydd lle mae capasiti cyfyngedig gan Lywodraeth Cymru i gynnal prosesau technegol cymhleth fel asesiadau o’r effaith amgylcheddol. Mae'r dirwedd bolisi ar gyfer bwydydd wedi'u mewnforio yn gymhleth iawn ar ôl ymadael â'r UE. Byddai dealltwriaeth gliriach gan yr holl bartneriaid a rhanddeiliaid o rolau a chyfrifoldebau diffiniedig o fewn y dirwedd hon yn cynorthwyo cydlyniant polisi.

Mae'r ASB yng Nghymru yn gweithredu o fewn tirwedd ddatganoledig gymhleth ac mae wedi dangos ystwythder wrth ymateb i wahaniaeth o ran polisi. Mae'r ASB yn darparu cyngor cyson sy'n seiliedig ar wyddoniaeth ar draws pob cenedl, ond lle mae Gweinidogion mewn gwahanol awdurdodaethau yn mabwysiadu dulliau gwahanol, mae'r ASB yn addasu dull cyflawni i sicrhau bod safbwyntiau gwahanol yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Ers ymadael â'r UE, mae Fframweithiau Cyffredin y DU yn cael eu datblygu i sicrhau dull cydgysylltiedig o ymdrin â phwerau sy'n cael eu dychwelyd o'r UE sy'n croestorri â chyfrifoldebau datganoledig. Mae'r ASB yn cynrychioli Cymru ar ddau fframwaith cyffredin dros dro (Diogelwch a Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid, a Safonau ynghylch Cyfansoddiad Bwyd a Labelu). Ystyrir bod yr ASB yn gyffredinol yn ymatebol i flaenoriaethau Cymru, ond mae lle i'r ASB wella ei dylanwad o fewn fframweithiau DU gyfan a sicrhau ymgysylltiad mwy amserol â

Gweinidogion Cymru a thimau polisi i sicrhau bod pryderon datganoledig a chyfansoddiadol yn cael eu datrys.

Mae'r ASB yn darparu cyngor annibynnol i Weinidogion Cymru o dan adran 6 o Ddeddf Safonau Bwyd 1999. Yn ogystal, o dan swyddogaethau a ddirprwywyd i'r ASB o dan adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r ASB yn arfer swyddogaethau penodol ar ran Gweinidogion Cymru. Er enghraifft, mae'r ASB yn rheoli ymgynghoriadau awdurdodi cynhyrchion i'w rhoi ar y farchnad ac yn darparu cyngor rheoli risg i Weinidogion Cymru. Mae Gweinidogion Cymru yn cadw'r cyfrifoldeb cyfreithiol am y penderfyniad terfynol ac awdurdodi cynhyrchion i'w rhoi ar y farchnad. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, mae cyngor yr ASB yn destun adolygiad gan wasanaeth cyfreithiol Llywodraeth Cymru. Ymddengys nad oedd y trefniadau llywodraethu hyn, sy'n unigryw i'r sefyllfa ddatganoledig yng Nghymru, yn cael eu deall yn llawn gan bob parti ac mae angen eu hegluro.

Mae tryloywder yn un o egwyddorion craidd yr ASB, a ddangosir trwy gyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd a chyhoeddi papurau'r Bwrdd a dogfennau allweddol eraill. Roedd cyfweleion Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi llais annibynnol yr ASB fel adran anweinidogol y Llywodraeth. Codwyd rhai pryderon penodol gan gyfweleion awdurdodau lleol am gyfarfodydd caeedig Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru (WFAC) (cyfarfodydd paratoi Bwrdd yr ASB), oedi wrth gyhoeddi cofnodion cyfarfodydd WFAC ar thema agored, a'r diffyg tryloywder ynghylch canlyniadau archwilio awdurdodau lleol.

Mae perthynas yr ASB ag awdurdodau lleol (ALlau) yn seiliedig ar ymrwymiad a rennir i ddiogelwch bwyd. Mae'r berthynas yn gynhenid gymhleth, wedi'i siapio gan rôl oruchwylio yr ASB a chyfrifoldeb ALlau am gyflawni. Ystyrir bod y cytundeb cydweithredol rhwng yr ASB, awdurdodau lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru ar ddatblygu polisïau ar gyfer diwygio rheoleiddio bwyd yn fframwaith defnyddiol, er bod ei effaith ar ymgysylltu o ddydd i ddydd wedi bod yn gymysg ac mae rhwystredigaethau gan yr ASB a'r ALlau ynghylch trefniadau cyfathrebu ac ymgynghori ar gyfer datblygu polisi. Sefydlwyd grŵp Bwyd Dilys, Cynaliadwy a Diogel Cymru i alluogi cydlyniadau lefel uchel rhwng yr ASB yng Nghymru, ALlau a rhanddeiliaid eraill ar bolisi ac arferion cyfraith bwyd, ond ar hyn o bryd mae'n anweithredol a gellid ei adfywio i hybu mwy o gydweithio. Byddai'r berthynas rhwng yr ASB yng Nghymru ac awdurdodau lleol yn elwa o broses ailosod

wedi'i negodi i ailsefydlu cyd-ddealltwriaeth, ymddiriedaeth a ffyrdd cytunedig o weithio.

## Argymhellion

1. Cwblhau a gweithredu'r Concordat wedi'i ddiweddaru rhwng yr ASB yng Nghymru a Llywodraeth Cymru.
2. Adolygu, mireinio a dogfennu trefniadau cyswllt rhwng yr ASB a thimau polisi Llywodraeth Cymru.
3. Sicrhau cynrychiolaeth briodol gan Lywodraeth Cymru ar Fframweithiau Cyffredin a fforymau trawslywodraethol neu fewnbwn iddynt i sicrhau bod datganoli a buddiannau cyfansoddiadol Cymru yn cael eu diogelu.
4. Cwblhau cylch gorchwyl ffurfiol ar gyfer y Grŵp Llywodraethu Bwyd Anifeiliaid.
5. Meithrin deialog ddwyffordd i ailosod a gwella'r berthynas rhwng yr ASB yng Nghymru ac awdurdodau lleol.
6. Atgyfnerthu a monitro’r gwaith o weithredu'r cytundeb cydweithredol rhwng yr ASB yng Nghymru, Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Llywodraeth Cymru.
7. Datblygu/adolygu a chytuno ar brotocolau clir ar gyfer cyfathrebu a chynrychiolaeth rhwng yr ASB yng Nghymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru.
8. Adolygu ac ailgychwyn neu ddisodli grŵp Bwyd Dilys, Cynaliadwy a Diogel Cymru.
9. Adfer a gwella trefniadau cyhoeddi data perfformiad gorfodi awdurdodau lleol i gefnogi meincnodi a hyrwyddo cydweithredu.

## 2. Casgliadau

Canfu'r adolygiad hwn dirwedd lywodraethu gyffredinol lle mae strwythurau ffurfiol wedi'u mynegi'n dda ac yn cael eu hystyried yn sefydledig iawn gan y rhai sy'n cymryd, er yn achos Concordat 2016, mae angen diweddariad sylweddol bellach i adlewyrchu cyfrifoldebau a threfniadau cyfredol. Mae cylch gorchwyl y Grŵp Llywodraethu Bwyd Anifeiliaid wedi'i ddrafftio ond heb ei gwblhau a'i gytuno eto. Y tu hwnt i'r strwythurau ffurfiol hyn, mae llawer o drefniadau anffurfiol a 'chyfarfodydd dal i fyny' yn rhan anochel o ffyrdd effeithlon o weithio ac yn darparu hyblygrwydd, ymateboldeb ac yn meithrin amgylchedd cydweithredol. Fodd bynnag, gall anffurfioldeb y trefniadau hyn a dibyniaeth ar unigolion allweddol gyflwyno heriau o ran parhad a dilyniant strategol a gall effeithio ar fusnes grwpiau neu bwyllgorau sydd wedi’u sefydlu’n ffurfiol.

Mae ymadawiad y DU â'r UE wedi sbarduno newid strwythurol hirdymor a chymhlethdod rheoleiddio cynyddol ar draws system diogelwch bwyd y DU, sy'n gofyn am drawsnewid cylch gwaith a gallu mewnol mewn perthynas â swyddogaethau polisi a chyflawni yr ASB. Mae'r ASB wedi ymateb yn rhagweithiol trwy wella a symleiddio prosesau mewnol. Mae datganoli cyfrifoldebau rheoleiddio yn gyflym i Weinidogion Cymru wedi cyflwyno heriau, yn enwedig mewn meysydd lle mae capasiti cyfyngedig gan Lywodraeth Cymru i gynnal prosesau technegol cymhleth fel asesiadau o’r effaith amgylcheddol. Mae adolygu’r Concordat yn rhoi cyfle i egluro’r trefniadau hyn a sicrhau eu bod yn gweithio hyd eithaf eu gallu. Mae'r dirwedd bolisi ar gyfer bwydydd wedi'u mewnforio yn gymhleth iawn ar ôl ymadael â'r UE, ac er bod gan yr ASB oruchwyliaeth mewn rhai meysydd (iechyd y cyhoedd sy'n gysylltiedig â bwyd a bwyd anifeiliaid), mae iechyd anifeiliaid a phlanhigion a bioddiogelwch ar y ffiniau yn gorwedd gyda Defra yn Lloegr, a Llywodraeth Cymru yng Nghymru. Mae meysydd eraill, fel polisi masnach ryngwladol, wedi'u cadw ac nid ydynt wedi'u datganoli. Byddai'r systemau ar gyfer rheoli mewnforio bwyd a bwyd anifeiliaid yng Nghymru yn elwa o fwy o gydlyniant polisi, a dealltwriaeth well o rolau a chyfrifoldebau diffinedig o fewn tirwedd bolisi gymhleth.

Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod heriau atebolrwydd deuol a gwahaniaeth rhwng cenhedloedd mewn system ddatganoledig – sut mae blaenoriaethau Gweinidogion Cymru yn cael eu hymgorffori yn natblygiad polisi'r ASB ar draws 3 gwlad (Cymru,

Lloegr a Gogledd Iwerddon), a gallu'r ASB i gefnogi safbwyntiau polisi gwahanol. Mae'r ASB o'r farn y gall ei thimau weithredu'n effeithiol yn y modd hwn ac maent wedi arfer gwneud hynny ar draws y 3 gwlad. Mae materion ymarferol yn deillio o ddealltwriaeth gyfyngedig traws-lywodraethol o sut mae datganoli yn newid swyddogaethau yr ASB yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr, ac o ganlyniad nid yw datblygu polisi yn cynnwys y bobl iawn ar yr adeg iawn, ac nid yw goblygiadau cyfansoddiadol neu gyfreithiol posibl yn cael eu harchwilio mewn modd amserol. Gallai cryfhau cyd-ddealltwriaeth o flaenoriaethau gweinidogol wella aliniad cynnar a sicrhau cynrychiolaeth briodol o Gymru mewn gweithgarwch polisi traws-lywodraethol.

Mae'r amgylchedd polisi ar gyfer maeth a labelu hefyd yn gymhleth oherwydd y trefniadau amrywiol ar gyfer cyfrifoldeb o wahano agweddau rhwng Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae blaenoriaethau gwahanol yr adrannau sy'n gyfrifol am bolisi yng Nghymru (Defra) a Chymru (ASB yng Nghymru, wedi'i lywio gan flaenoriaethau Gweinidogion Cymru) yn cymhlethu'r sefyllfa ymhellach. Roedd polisi organebau wedi'u bridio'n fanwl (PBO) yn Lloegr yn enghraifft o hyn, lle mae potensial yn y dyfodol y bydd cynhyrchion sy'n cynnwys PBO a gynhyrchir ac a reoleiddir o dan bolisi Lloegr yn cael eu gwerthu yng Nghymru ac felly'n methu â bodloni disgwyliadau defnyddwyr a gorfodi Cymru (lle byddai PBO yn parhau i gael eu dosbarthu fel GMO). Dylai'r ASB barhau i ddefnyddio ei perthnasoedd gwaith agos â rhanddeiliaid allweddol ledled y DU ac ymgysylltu â Fframweithiau Cyffredin perthnasol i sicrhau bod y gwahaniaethau o ran cylch gwaith polisi rhwng cenhedloedd yn cael eu cydnabod, er enghraifft pan fydd Defra yn ystyried trefniadau labelu yn Lloegr. Mae trefniadau ymsefydlu a hyfforddi ar gyfer aelodau newydd o staff yn pwysleisio buddiannau Cymru (megis ar ddisgwyliadau labelu a chyfansoddiad). Efallai y bydd cyfleoedd i gryfhau ac integreiddio cyfranogiad Llywodraeth Cymru a'r ASB ymhellach mewn grwpiau a fframweithiau labelu er mwyn sicrhau bod blaenoriaethau Cymru yn cael eu hystyried a'u hadlewyrchu mewn penderfyniadau polisi y DU yn gyfan.

Un o rolau allweddol yw ASB yw darparu cyngor annibynnol i Weinidogion Cymru o dan adran 6 o Ddeddf Safonau Bwyd 1999. Fodd bynnag, pan fydd yr ASB yn darparu cyngor i'r Gweinidog o dan swyddogaethau a ddirprwywyd o dan adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r Asiantaeth yn gweithredu fel is-adran

cynghori ar bolisi Gweinidog Cymru, nid fel rheoleiddiwr annibynnol. Mae cyfathrebu o'r fath yn destun adolygiad gan wasanaeth cyfreithiol Llywodraeth Cymru, ac er fod hynny'n rhan hanfodol o gydweithio, mae'n gallu arwain at oedi a'r canfyddiad bod cyngor yr ASB wedi'i 'leddfu'. Ymddengys nad oedd y trefniadau hyn, sy'n unigryw i'r sefyllfa ddatganoledig yng Nghymru, yn cael eu deall yn llawn gan bob parti. Mae cyfrifoldebau mewn rhai sefyllfaoedd yn gymhleth ar draws nifer o friffiau gweinidogol a thimau polisi o fewn Llywodraeth Cymru. Roedd yr ASB a Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i ddiffinio cyfrifoldebau statudol a mecanweithiau cynghori ar gyfer Gweinidogion yn glir, yn enwedig o ystyried effeithiau polisi ac effeithiau deddfwriaethol tebygol y newidiadau yn aliniad y DU â'r UE. Mae datrys materion yn ymwneud ag alinio blaenoriaethau a darparu adnoddau cyfreithiol yn ddibynnol ar sicrhau mwy o eglurder ar rolau, swyddogaethau a strwythurau llywodraethu y cytunwyd arnynt. Mae adolygu'r Concordat yn rhoi cyfle amserol i egluro er mwyn sicrhau dealltwriaeth gyffredin, ac ailddiffinio'r trefniadau hyn i ddiwallu anghenion yn y dyfodol.

Mae'r ASB yn gweld tryloywder fel gwerth sefydliadol craidd a nodwedd ddiffiniol a gefnogir gan fecanweithiau ymarferol wrth gyflawni o ddydd i ddydd. Mae trefniadau anffurfiol ar gyfer ymgysylltu rhwng yr ASB a Llywodraeth Cymru yn gweithio'n dda o safbwynt y rhai sy'n cymryd rhan, ond gallant herio'r canfyddiad o dryloywder o safbwynt eraill nad ydynt yn cymryd rhan yn y trafodaethau. Ar y llaw arall, ni fyddai cadw cofnodion llawn o bob sgwrs a chyfarfod yn ymarferol a gallai rwystro cyfnewid barn agored a gonest yng nghamau cynnar datblygu polisi. Cydnabuwyd bod cymhlethdod o ran tryloywder mewn cyfathrebu gweithredol, yn enwedig wrth reoli llif gwybodaeth am achosion neu risgiau sy'n dod i'r amlwg ac awydd i beidio â gorlethu partneriaid (e.e. awdurdodau lleol) gyda gwybodaeth. Tynnodd cyfranogwyr awdurdodau lleol sylw at dryloywder penderfyniadau ynghylch adnoddau, sesiynau caeedig a diffyg cofnodion cyfarfodydd WFAC, a'r dull o archwilio a monitro perfformiad gorfodi ALlau. Mae gan yr ASB ymrwymiadau clir i wneud penderfyniadau a chyfathrebu'n dryloyw ond mae heriau wrth sicrhau bod yr ymrwymiadau hyn yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac yn gyson yn ymarferol.

Mae natur y berthynas rhwng ALlau Cymru a'r ASB yn gynhenid gymhleth gan fod y sefydliadau yn gweithio mewn partneriaeth ar ddarparu bwyd diogel, ond mae gan yr ASB hefyd rôl oruchwylio, archwilio a monitro ar berfformiad ALlau fel awdurdodau

gorfodi. Lleisiwyd rhwystredigaethau gan yr ASB yng Nghymru a chyfweleion ALl ynghylch y trefniadau ar gyfer cyfathrebu gwybodaeth ac ymgynghori ar ddatblygu polisi, gan awgrymu nad yw'r trefniadau presennol yn gweithio i unrhyw un o'r rhai dan sylw. Gwelwyd bod y cytundeb cydweithredol (Llywodraeth Cymru, 2023) wedi gwella strwythur y berthynas, ond roedd rhai o'r farn nad oedd hyn wedi arwain at newidiadau sylweddol mewn arferion datblygu polisi. Roedd grŵp Bwyd Dilys, Cynaliadwy a Diogel Cymru (SSAFW) wedi'i sefydlu i alluogi cydgysylltiad lefel uchel rhwng yr ASB yng Nghymru, ALlau a rhanddeiliaid eraill ar bolisi ac arferion cyfraith bwyd, ond nid oedd wedi cyfarfod ers peth amser – er bod y cysyniad o SSAFW fel un fforwm aml-randdeiliaid strwythuredig yn cael ei ystyried yn gyffredinol yn gadarn ac yn angenrheidiol ar draws cyfweleion yr ASB, Llywodraeth Cymru a'r ALlau. Yn gyffredinol, byddai’r berthynas rhwng yr ASB yng Nghymru ac ALlau Cymru yn elwa o broses ‘ailosod wedi'i negodi’ i ailsefydlu cyd-ddealltwriaeth, ymddiriedaeth a ffyrdd cytunedig o weithio.

# 3. Argymhellion

Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r adolygiad, gwneir yr argymhellion canlynol:

### Argymhelliad 1: Cwblhau a gweithredu'r Concordat wedi'i ddiweddaru rhwng yr ASB yng Nghymru a Llywodraeth Cymru

Dylai adolygiad cyfredol y Concordat gael ei gwblhau a'i weithredu o fewn y 12 mis nesaf. Dylai'r ddogfen wedi'i diweddaru ddiffinio'n glir rolau a chyfrifoldebau pob parti, yn enwedig ynghylch swyddogaethau rheoleiddio a pholisi, a diffinio gweithdrefnau clir ar gyfer cyflwyno cyngor i Weinidogion Cymru. Dylai gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno cyngor i Weinidogion Cymru ddiffinio a gwahaniaethu'n glir rhwng pryd y mae'r ASB yn arfer ei phwerau ei hun o dan adran 6 o Ddeddf Safonau Bwyd 1999, a phan fydd yn gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru drwy drefniadau o dan adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Dylid adolygu rolau, cyfrifoldebau a threfniadau ar gyfer darparu a rhannu cyngor cyfreithiol a'u symleiddio lle bo hynny'n briodol. Ar ôl ei gwblhau, dylid cyfleu'r Concordat diwygiedig yn ffurfiol ar draws timau'r ASB a Llywodraeth Cymru, ac adolygu ei weithrediad yn y cyfarfod cydlynu nesaf.

### Argymhelliad 2: Adolygu, mireinio a dogfennu trefniadau cyswllt rhwng yr ASB a thimau polisi Llywodraeth Cymru

Dylai'r ASB yng Nghymru a Llywodraeth Cymru, ar y cyd, adolygu llwybrau cyfathrebu cyfredol, yn enwedig rôl tîm nawdd yr ASB a sut y gellir galluogi ymgysylltiad uniongyrchol ac amserol rhwng swyddogion yr ASB a thimau polisi perthnasol tra'n cynnal goruchwyliaeth briodol. Gallai hyn ddigwydd ochr yn ochr ag adolygiad y Concordat, neu fel rhan ffurfiol o'r Concordat os ystyrir ei fod yn briodol. Dylai hyn adlewyrchu'r swyddogaethau'r ASB sy'n cael eu harfer, gan wahaniaethu rhwng pwerau adran 6 yr Asiantaeth ei hun, lle mae rôl y tîm nawdd yn fach, a'r rhai a ddirprwywyd gan Weinidogion Cymru (trefniadau adran 83) lle mae'r tîm nawdd yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod cyngor cyfreithiol a chyfansoddiadol priodol yn cael ei geisio a'i adlewyrchu. Pan fo cyfrifoldebau'n rhychwantu briffiau mwy nag un gweinidog, dylid ystyried briffio neu gydlynu ar y cyd, lle nad yw hyn eisoes yn digwydd. Er mwyn lleihau dibyniaeth ar rwydweithiau anffurfiol a chof sefydliadol, dylid creu a rhannu dogfennaeth broses 'cyfeirio cyflym' syml ar gyfer swyddogion

sy'n ymwneud â chydlynu, er enghraifft fel mapiau proses neu femoranda cyd-ddealltwriaeth.

## Argymhelliad 3: Sicrhau cynrychiolaeth briodol gan Lywodraeth Cymru ar Fframweithiau Cyffredin a fforymau trawslywodraethol neu fewnbwn iddynt i sicrhau bod datganoli a buddiannau cyfansoddiadol Cymru yn cael eu diogelu

Dylid cynnal adolygiad ar y cyd o fewn y 6 mis nesaf i nodi unrhyw fforymau a grwpiau fframwaith sy'n weddill lle nad yw Llywodraeth Cymru yn cael ei chynrychioli'n uniongyrchol. Pan fo'r ASB yn arwain y polisi, dylid ystyried opsiynau i gryfhau strwythurau adrodd a briffio rhwng yr ASB yng Nghymru a Llywodraeth Cymru i atgyfnerthu mewnbwn Cymru.

## Argymhelliad 4: Cwblhau cylch gorchwyl ffurfiol ar gyfer y Grŵp Llywodraethu Bwyd Anifeiliaid

Dylid cytuno ar gylch gorchwyl y Grŵp Llywodraethu Bwyd Anifeiliaid a'i gyfleu i randdeiliaid perthnasol o fewn y 6 mis nesaf. Dylai'r ddogfennaeth ddiffinio cylch gorchwyl, aelodaeth ac awdurdod o ran gwneud penderfyniadau, a chynnwys mecanwaith ar gyfer adolygiad cyfnodol i sicrhau bod y grŵp yn parhau i fod yn berthnasol ac yn effeithiol.

## Argymhelliad 5: Meithrin deialog ddwyffordd i ailosod a gwella'r berthynas rhwng yr ASB yng Nghymru ac awdurdodau lleol

Dylid datblygu mannau cydweithredol ar gyfer trafod sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r heriau presennol i'r berthynas broffesiynol rhwng ALlau a'r ASB yng Nghymru o fewn y 6 mis nesaf. Dylid defnyddio mecanweithiau strwythuredig sy’n seiliedig ar dystiolaeth i wireddu newid cadarnhaol ac adfer ymddiriedaeth a chyd-ddealltwriaeth. Mae'r dulliau y gellid eu hystyried yn cynnwys:

- Hwyluso defnydd o offer adolygu a datblygu partneriaethau i ailsefydlu ac atgyfnerthu gweledigaeth a ddealltwriaeth gyffredin, a phrosesau a mecanweithiau cyfathrebu priodol. Er enghraifft, mae Canllaw Partneriaethau Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig (Stibbe a Prescott, 2020) yn darparu canllawiau ac offer ymarferol y gellir eu defnyddio i sefydlu ac adolygu partneriaethau aml-randdeiliaid.

- Creu mecanweithiau adborth digidol strwythuredig, fel "porth ymgysylltu" lle gall ALlau gofnodi pryderon a derbyn ymatebion wedi'u holrhain, o fewn amser penodol.
- Datblygu fframwaith datrys gwrthdaro ysgafn, gan gynnwys cyd-asesiadau o bwyntiau lle gallai fod croesdynnu posibl, a mynediad at drefniadau niwtral lle mae anghydfodau'n codi.

### Argymhelliad 6: Atgyfnerthu a monitro’r gwaith o weithredu'r cytundeb cydweithredol rhwng yr ASB yng Nghymru, Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Llywodraeth Cymru

Dylai pob partner i'r cytundeb cydweithredol sicrhau eu bod yn gweithredu mewn ffyrdd sy'n sicrhau y gellir cyflawni amcanion y cytundeb. Er mwyn cefnogi hyn, dylid cyflwyno system o adrodd blynyddol ar sut mae egwyddorion cydweithio yn cael eu gweithredu, gan gynnwys enghreifftiau penodol a diweddariadau ar gynnydd. Gellid adrodd i dîm nawdd Llywodraeth Cymru, neu i fforwm partneriaeth neu grŵp goruchwylio priodol arall. Gall adolygiad ysgafn o'r cytundeb cydweithredol fod yn fuddiol, i gynnwys datblygiadau ers cau'r rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau, a/neu i ddileu cyfeiriad penodol at y rhaglen hon.

### Argymhelliad 7: Datblygu/adolygu a chytuno ar brotocolau clir ar gyfer cyfathrebu a chynrychiolaeth rhwng yr ASB yng Nghymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru

Er mwyn cefnogi effeithiolrwydd y cytundeb cydweithredol, dylai‘r ASB yng Nghymru, Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru (DPPW), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a phaneli a sefydliadau cynrychioliadol llywodraeth leol perthnasol eraill ddatblygu/adolygu a chytuno ar y cyd ar brotocolau clir ar gyfer cyfathrebu a chynrychiolaeth. Dylai hyn gynnwys trafodaeth agored o ddiffygion neu anawsterau canfyddedig yn y prosesau presennol a ddefnyddir ar gyfer casglu mewnbwn a lledaenu adborth i bob un o'r 22 ALl, ac ymateb i sylwadau a wnaed gan baneli cynrychioliadol ALl. Dylid sefydlu cynllun gyda chamau gweithredu wedi'u hamseru i adfer ffydd yn y prosesau cyfathrebu a chynrychiolaeth.

## Argymhelliad 8: Adolygu ac ailgychwyn neu ddisodli grŵp Bwyd Dilys, Cynaliadwy a Diogel Cymru

Dylid adolygu fforwm Bwyd Dilys, Cynaliadwy a Diogel Cymru (SSAFW) a naill ai ei adfer neu ei ddisodli gyda dewis(iadau) amgen wedi'i ddogfennu'n glir gan ddarparu'r un manteision o fewn y 12 mis nesaf, gan ddod â rheoleiddwyr, ALlau, diwydiant, defnyddwyr a'r byd academaidd ynghyd. Dylai'r grŵp SSAFW neu ei olynydd(ion) weithredu gyda mandad clir, cael ei gefnogi'n glir gan yr ASB yng Nghymru a phartneriaid eraill drwy ei ddefnyddio fel adnodd canolog i lywio strategaeth, polisi a chyflawni cyfraith bwyd, i gefnogi Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru. Dylai'r ASB yng Nghymru sicrhau bod gan y grŵp adnoddau digonol i gyflawni ei swyddogaeth, gan gynnwys penodi Cadeirydd priodol yn brydlon.

## Argymhelliad 9: Adfer a gwella trefniadau cyhoeddi data perfformiad gorfodi awdurdodau lleol i gefnogi meincnodi a hyrwyddo cydweithredu

Dylai trefniadau cyhoeddi data gorfodi cyfraith bwyd ALl yn rheolaidd ailddechrau cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Dylai awdurdodau lleol fod yn cymryd rhan weithredol mewn datblygu a threialu systemau archwilio a monitro perfformiad newydd. Dylai adrodd fod yn ddigon manwl i alluogi meincnodi ac i hyrwyddo dysgu a lledaenu dulliau o ansawdd uchel a/neu arloesol yn effeithiol, tra'n sicrhau cyfrinachedd lle bo angen. Dylid ystyried cyfraniadau awdurdodau lleol ar yr hyn a fyddai'n werthfawr i adrodd amdano i hyrwyddo defnydd effeithiol o ddata agregedig a blaenoriaethu dysgu a rennir.

# 4. Cyfeiriadau


Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (2022) *Food Compositional Standards and Labelling Common Framework: Provisional Framework Outline Agreement and Concordat*. Llundain: HMSO. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/food-compositional-standards-and-labelling-provisional-common-framework.

Asiantaeth Safonau Bwyd (2018) *Review of the Food Advisory Committees: Report to FSA Board June 2018*. Ar gael yn: https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/ukgwa/20201201162118mp_/https:/www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/Food%20Advisory%20Committees%20Review%20-%20FSA%2018-06-11.pdf.

Asiantaeth Safonau Bwyd (2019) 'Minutes of Inaugural Meeting of the Welsh Food Law Enforcement Committee - 21 October 2019'. Heb ei gyhoeddi.

Asiantaeth Safonau Bwyd (2023b) *Adolygiad o'r Pwyllgorau Cynghori ar Fwyd: Adroddiad i Fwrdd yr ASB Mehefin 2023*. Ar gael yn: https://www.food.gov.uk/cy/board-papers/adolygiad-or-pwyllgorau-cynghori-ar-fwyd.

Asiantaeth Safonau Bwyd (2024a) *Rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau*. Ar gael yn: https://www.food.gov.uk/cy/amdanom-ni/rhaglen-sicrhau-cydymffurfiaeth-busnesau.

Asiantaeth Safonau Bwyd (2024b) *Achieving Business Compliance: Report to FSA Board September 2024*. Ar gael yn: https://www.food.gov.uk/board-papers/achieving-business-compliance-0.

Asiantaeth Safonau Bwyd (2024c) *Codau Ymarfer Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid,* Ar gael yn: https://www.food.gov.uk/cy/amdanom-ni/codau-ymarfer-cyfraith-bwyd-a-bwyd-anifeiliaid.

Asiantaeth Safonau Bwyd (2024d) *FSA Board Meeting - September 2024: Video and Minutes*. Ar gael yn: https://www.food.gov.uk/board-papers/fsa-board-meeting-september-2024-video-and-minutes.

Asiantaeth Safonau Bwyd (2024e) *Awdurdodau lleol*. Ar gael yn: https://www.food.gov.uk/cy/local-authorities/awdurdodau-lleol.

Asiantaeth Safonau Bwyd (2025a) *Ymgynghoriad ar ddiwygiadau arfaethedig i'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a'r Canllawiau Ymarfer – Cymru.* Ar gael yn: https://www.food.gov.uk/cy/news-alerts/consultations/ymgynghoriad-ar-ddiwygiadau-arfaethedig-ir-cod-ymarfer-cyfraith-bwyd-ar-canllawiau-ymarfer-cymru.

Asiantaeth Safonau Bwyd (2025b) *Y system rheoleiddio bwyd.* Ar gael yn: https://www.food.gov.uk/cy/amdanom-ni/y-system-rheoleiddio-bwyd.

Asiantaeth Safonau Bwyd (2025c) *Gair amdanom.* Ar gael yn: https://www.food.gov.uk/cy/amdanom-ni/gair-amdanom.

Asiantaeth Safonau Bwyd a Safonau Bwyd yr Alban (2025) *Memorandum of Understanding between the Food Standards Agency and Food Standards Scotland*. Ar gael yn https://www.food.gov.uk/our-work/memorandum-of-understanding-introduction.

Asiantaeth Safonau Bwyd(2023a) *Bridio manwl*. Ar gael yn: https://www.food.gov.uk/cy/canllawiau-defnyddiwr/bridio-manwl.

*Deddf Diogelwch Bwyd* (1990). Cronfa Ddata Cyfraith Statud. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/16/contents.

*Deddf Llywodraeth Cymru (2006).* Cronfa Ddata Cyfraith Statud. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/32/contents.

*Deddf Safonau Bwyd* (1999). Cronfa Ddata Cyfraith Statud. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1999/28/contents.

*Deddf Technoleg Enetig (Bridio Manwl) (2023).* Cronfa Ddata Cyfraith Statud. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2023/6/contents.

*Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Sefydlu)* 2009. Cronfa Ddata Cyfraith Statud. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2009/2058/contents/made/welsh.

Kiger, ME a Varpio, L. (2020) 'Thematic analysis of qualitative data: AMEE Guide No. 131', *Medical Teacher*, 42(8), pp. 846–854. Ar gael yn: https://doi.org/10.1080/0142159X.2020.1755030.

Llywodraeth Cymru (2016) *Concordat rhwng yr Asiantaeth Safonau Bwyd a Llywodraeth Cymru* Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/concordat-rhwng-yr-asiantaeth-safonau-bwyd-llywodraeth-cymru.

Llywodraeth Cymru (2021) *Datganiad Ysgrifenedig: Adolygu'r Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru 23 Mehefin 2021).* Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-adolygur-asiantaeth-safonau-bwyd-yng-nghymru.

Llywodraeth Cymru (2023) *Adolygu a diwygio'r drefn rheoleiddio busnesau bwyd yng Nghymru.* Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/adolygu-diwygior-drefn-rheoleiddio-busnesau-bwyd-yng-nghymru.

Llywodraeth Cymru (2025) *Fframwaith diogelu iechyd: ein gweledigaeth i atal peryglon sy'n deillio o glefydau trosglwyddadwy a digwyddiadau amgylcheddol.* Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/fframwaith-diogelu-iechyd-html.

*Regulation (EC) No 178/2002 of the European Parliament and of the Council of 28 January 2002 laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety* (2002). Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin. A gael yn: https://www.legislation.gov.uk/eur/2002/178/contents.

*Regulation (EC) No 852/2004 of the European Parliament and of the Council of 29 April 2004 on the hygiene of foodstuffs* (2004). Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/eur/2004/852/introduction.

*Regulation (EC) No 853/2004 of the European Parliament and of the Council of 29 April 2004 laying down specific hygiene rules for food of animal origin* (2004). Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/eur/2004/853/contents.

*Regulation (EU) No 1169/2011 of the European Parliament and of the Council of 25 October 2011 on the provision of food information to consumers, amending Regulations (EC) No 1924/2006 and (EC) No 1925/2006 of the European Parliament and of the Council, and repealing Commission Directive 87/250/EEC, Council Directive 90/496/EEC, Commission Directive 1999/10/EC, Directive 2000/13/EC of the European Parliament and of the Council, Commission Directives 2002/67/EC and 2008/5/EC and Commission Regulation (EC) No 608/2004 (Text with EEA relevance)* (2011). Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/eur/2011/1169/contents.

*Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru)* (2006). Cronfa Ddata Cyfraith Statud. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2006/31/contents/made/welsh.

Stibbe, D. a Prescott, D. (2020) *The SDG Partnership Guidebook: a practical guide to building high-impact multi-stakeholder partnerships for the Sustainable Development Goals*. Adran Materion Economaidd a Chymdeithasol y Cenhedloedd Unedig a'r Fenter Bartneriaeth. Ar gael yn: https://sdgs.un.org/publications/sdg-partnership-guidebook-24566.

Swyddfa'r Cabinet (2013) *Memorandwm cyd-ddealltwriaeth: llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig.* Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/memorandwm-cyd-ddealltwriaeth.

Swyddfa'r Prif Weinidog (2023) *The Windsor Framework: a new way forward*. Llundain: HMSO. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/the-windsor-framework.

*The General Food Regulations* (2004). Cronfa Ddata Cyfraith Statud. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2004/3279/contents.

*United Kingdom Internal Market Act* (2020). Cronfa Ddata Cyfraith Statud. Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2020/27/contents.

Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2020) *Food and Feed Safety and Hygiene Common Framework: Provisional Framework Outline Agreement and Concordat*. Llundain: HMSO. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/food-and-feed-safety-and-hygiene-provisional-common-framework.